

## CYNGOR CYMUNED PENNAL

### **Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Pennal a gynhaliwyd Nos Wener 19eg o Fai 2023 am 6.00yh yn y Ganolfan Pennal.**

Presennol; Meirion Roberts (Cadeirydd ) Rhys Parry, Aled Rees, Hywel Evans, James Brunton, Williams Rees, Kenneth Griffiths, Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) Deilwen Breese a Huw T Jones

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Cadeirydd Meirion Roberts. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.
2. Aethpwyd ymlaen i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. Un mater a godwyd, sef sefyllfa darn o dir tu cefn i Ty Alys, gyferbyn a'r Ganolfan. (tir ger Greiandy) Cyfeiriwyd at lythyr yn 2005 i'r cyn berchennog lle cytunwyd i hyn gan Cyngor Gwynedd (hefyd roedd map ynglwm wrtho). Roedd yn ymddangos fodd bynnag nad oedd y cynnig I werthu yn dal yn gyfredol I berchnogion presennol Ty Alys, ond ac roedd angen cysylltu gyda Chyngor Gwynedd I gael cadarnhad o'r sefyllfa. Cytunodd y Cyngorwyr I roi pob cefnogaeth I'r mater, a byddai'r Clerc yn ymdrin a hyn gyda Chyngor Gwynedd.

Yn rhan hwn o'r cyfarfod, estynwyd groeso cynnes iawn I'r cyn Clerc Deilwen Breese, a oedd wedi cwblhau 45 mlynedd o waith I'r Cyngor fel Clerc. Mynegwyd diolch diffuant iawn gan Meirion Roberts ar ran y Cyngorhorwyr am ei gwaith caled ac am y dyfalbarhad dros cymaint o flynyddoedd. Cyflwynwyd blodau iddi fel arwydd o werthfawrogiad, a dywedwyd fod trefniant mewn lle I gyflwyno anrheg iddi maes o law. Diolchodd Deilwen I bawb am eu geiriau caredig, a dymuno yn dda ir Cyngor ir dyfodol.

3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd 28ain o Fawrth ar gynnig Cyng. James Brunton a'l eilio gan Aled Rees.
4. **Materion yn codi – ac hefyd cyfeiriwyd at y materion canlynol;**
  - Dreaniau yn y pentref – adroddodd Dewi Owen y diweddaraf, gan gyfeirio yn arbennig at draen o flaen Gwelfryn, a'i fod wedi siarad am hyn gyda Cyngor Gwynedd. Nid oedd gwaith wedi ei wneud yno fodd bynnag, ac roedd dwr yn llifo i lawr Tower Road ar adegau o law. Byddai dargyfeirio dwr i'r draen yma o gymorth ir sefyllfa. Gwelwyd y gellir ymweld a'r safle ar ol y cyfarfod.
  - Mynwent yr Eglwys – adroddwyd y cefndir i'r fynwent yma a oedd ym mherchnogaeth yr Eglwys. Roedd cytundeb wedi ei wneud y byddai rhaid cael sicrwydd o gael yr holl goed wedi eu torri cyn y gallai y Cyngor Cymuned gymryd trosodd y cyfrifoldeb. Roedd amcangyfrifon am y gost wedi eu derbyn gan yr Eglwys, ac roedd hyn yn mynd i ddioglydd yn fuan. Byddai rhaid wedyn cysylltu gyda'r cwmni yswiriant.
  - Biniau baw cwn - roedd hyn yn parhau heb ei ddatrys, a gwelwyd y dylid cysylltu gyda'r warden cwn.
  - Llinellau ar y ffordd yn y maes parcio yn Cwrt – darllenwyd e-bost i'r Clerc gan Linda Johnson yn gofyn am eglurhad am y sefyllfa. Atgoffwyd pawb

mai Cyngor Gwynedd sydd perchen, ond fod y gweithredoedd ar goll. Gwelwyd na ddylai fod anhawster efo hyn fodd bynnag, ac na allai neb gymryd y safle oddiwrthynt.

- Gyda'r garafan static wedi ei lleoli yn Cwm Sylwi, ac ail garafan gyferbyn a'r Rheithordy (lle roedd yn ymddangos nad oedd cais cynllunio wedi ei wneud) roedd e-bost gan y Parc Cenedlaethol yn gofyn am fwy o wybodaetha m y lleoliad. Addawodd James ddanfon map ar e-bost i'r Clerc.

#### **5. Ethol Swyddogion 2023-24 – etholwyd fel a ganlyn;**

- a) Cadeirydd – Cyng Rhys Parry
- b) Is- Gadeirydd -Cyng James Brunton
- c) Clerc – Huw T Jones

#### **5. Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Pennal ar gyfer 2023/24.**

Cadarnhwyd y canlynol – 14/07/23, 1/09/23, 13/10/23, 8/12/23, 26/01/24, 8/03/24.

- 6. Dosbarthwyd ffurflenni cofrestr buddiannau l'w cwbwlhau gan Gynghorwyr. Hefyd dosbarthwyd copi o'r cod ymddygiad l bawb. Ar gynnig Hywel Evans a'l eilio gan James Brunton, gyda chefnogaeth pawb, penderfynwyd mabwysiadu y cod ymddygiad, rheoliadau arianol/sefydlog, pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth.

Dywedodd y Clerc fod yna reolau sefydlog newydd l law gan Un Llais Cymru, a byddai yn dosbarthu rhain cyn y cyfarfod nesaf.

Asesiad Risc ir Cyngor ac l'r fynwent – darllenwyd yr holl benawdau mewn engrafft o asesiad risc oedd wedi ei wneud, a phenderfynwyd ar gynnig James Brunton a'l eilio gan Meirion Roberts l'w mabwysiadu. Byddai copi yn cael ei gadarnhau a'l ddanfon l bawb erbyn y cyfarfod nesaf.

- 7. Cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned ar bwyllgorau / sefydliadau allanol .

Nodwyd y canlynol;

Menter y Glan – Meirion Roberts a James Brunton

Un Llais Cymru – Meirion Roberts

Llywodraethwyr Ysgol Pennal – Rhys Parry

Partneriaeth Pennal – Rhys Parry.

#### **9. Materion Cynllunio**

Nid oedd yna faterion cynllunio i'w trafod. Gyda cheisiadau i'r dyfodol, (lle nad oedd 21 diwrnod cyn y cyfarfod canlynol) penderfynwyd y gellid eu dosbarthu drwy e-bost i'r Cynghorwyr yn gofyn am sylwadau.

## **8. Materion Cyllid.**

a) Cyflwynwyd cyfrifon 2022-23 a oedd wedi eu paratoi ac angen eu danfon i'r archwilydd mewnol. Cyfeiriwyd at y cofnodion, y dogfennau cyllid a'r crynodeb blynyddol, a byddai'r gwaith o'u cyflwyno yn electroneg yn cychwynyn fuan.

b) Nodwyd ohebiaeth ac anfoneb y cwmni yswiriant Zurich yn cadarnhau manylion y gorchudd yswiriant ar gyfer 2023-24, a bod cyfanswm o £475.01 yn ddyledus. Roedd y cyfan eisoes wedi ei ddanfon allan i'r Cynghorwyr. Byddem yn adolygu hyn eto y tro nesaf er mwyn sicrhau fod yna orchudd cywir dros bob dim.

c) Nodwyd derbyn rhan gyntaf y praesept am 2023-24, sef £7,500. Nodwyd balansau y cyfrifon, sef Cyfri cyfredol £9,053.12 a Cyfri Cadw £2,609.47. Aethpwyd drwy benawdau y gyllideb ar gyfer 2023-24. Hefyd cadarnhawyd rhestr asedau y Cyngor a oedd yn gyfanswm o £17,000.

Adroddwyd fod Huw Jones wedi cwblhau holiadur I Fanc Barclays, a oedd yn angenrheidiol neu fe fyddant yn cau y cyfri. Byddai angen yn awr newid y mandad banc I gynnwys Huw yn lle Deilwen, a chytunwyd ar hyn. Cytunodd Rhys Parry I gysylltu gyda Barclays i gadarnhau y newid yma, a gofyn am fandad I'w gwblhau.

d) Nodwyd anfoneb i law gan Deilwen Breese y cyn Glerc. Cytunwyd I dalu y cydnabyddiaeth/costau oedd yn ddyledus Medi 2022 – Mawrth 2023 sef £600 (net), a Mawrth – Mai 2023 sef £200 (net) a chostau o £52.92 (cyfanswm o £852.92)

Cytunwyd ar gydnabyddiaeth o £2000 (net) i Huw Jones a £500 o gostau am 2023-24 yn unol a'r cynnig a wnaethpwyd.

e) Cyfraniadau yn lleol – roedd cyfraniad o £500 i Ysgol Pennal wedi ei gytuno yn y cyfarfod diwethaf, a chadarnhawyd y gellid gwneud y taliad yma.

## **9. Unrhyw fater arall.**

- Trafodwyd fod angen hysbysfwrdd arall yn yr arhosfan bws ger y toiledau. Nodwyd fod y Cyngor wedi cael arian ar gyfer hyn, ac addawodd Meirion Roberts i edrych i mewn i'r mater.
- Roedd drych wedi torri ger y fynedfa i Cefn Caer, ac addawodd William Rees edrych i mewn i hyn.
- Roedd slab concrit angen ei hail-osod o flaen y Glan, ac addawodd William Rees ymdrin a hyn.
- Roedd dwr yn troi tua ochr y ffordd oherwydd camber o flaen Ty Alys, ac addawodd Dewi Owen edrych i mewn i hyn

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 7.45yh.

